# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Sara Jones**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd hybrid yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 26ed o Chwefror 2026 am 19:00**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Michael Williams

1. **Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Catrin Wager**.
   Estynnwyd croeso i Linda yn ôl ar ôl iddi fod yn sâl.

Ymddiheuriadau – Y Cynghorwyr: Rheinallt Puw

2. **Datgan diddordeb:** Datganodd y cynghorwyr diddordeb pam oeddynt yn penderfynu ar y rhoddion.

3. **Materion brys (gyda chaniatâd y Cadeirydd)**

Y Cynghorydd Ann Williams/ Einir Williams – Mae'r tyllau yn y ffordd wedi cael eu trwsio gan y Cyngor. Mae gan Einir gyfarfod gyda'r Cyngor wythnos nesaf, felly gobeithio y bydd hi'n codi'r pryderon sy'n weddill am y gwaith trwsio ac y byddant yn cael eu datrys.

4. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Y Clerc i gywiro y canlynol o gonfnodion mis Ionawr:
- Praesept 26/27 – Angen ail ysgrifennu'r paragraff i adlewyrchu'r hyn a benderfynwyd yn y cyfarfod.
- Cywiro sawl gwall gramadegol yn y dogfen.

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion:**

**Bws Lloches Bontŵr –** Mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad â chwmni lleol, *Cormac*, i wneud y safle'n ddiogel. Gobeithio cael mwy o ddiweddariad erbyn cyfarfod mis Mawrth. Y Clerc i edrych a oes angen tri dyfnbris cyn gwneud y gwaith.

**Paneli Haul –** Y Clerc wedi derbyn e-ebost gan Ynni Ogwen ynglŷn a'r paneli haul, yn dweud diolch ac mi fyddent mewn cysylltiad pam fyddent am cychwyn y gwaith.
Mae angen i'r Clerc ysgrifennu llythyr i Partneriaeth Ogwen i gael pris am creu cynllun busnes.

6. **Gorffwysfan**

Gofynnodd aelod o'r cyhoedd i'r Cynghorydd Rheinallt Puw a fyddai'n bosibl gosod sêff allweddi y tu allan i'r Gorffwysfan. Cytunodd y cynghorwyr fod oriau agor y Gorffwysfan yn gwasanaethu'r gymuned yn dda.

7. **Bwrdd Partneriaeth Ogwen**

Y Clerc wedi derbyn e-bost gan Dafydd Roberts yn gofyn os gan y Cyngor unrhyw faterion yn ymwneud a'r Dynodiad Safle Treftadaetth Byd i'w codi, i cysylltu efo Dafydd cyn diwedd mis Chwefror.

8. **Maes Parcio Gerlan**

Y Clerc wedi seinio papurau pryniant y tir wedi cael ei yrru i ffwrdd. Mae angen cynllun busnes diweddar er mwyn i'r Clerc/Cyngor cael gwneud cais am benthyciad.
Mae y clerc am ysgrifennu i Partneriaeth Ogwen i ofyn faint bydd y ffi i creu cynllun busnes ar gyfer y Maes Parcio.

9. **Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr **"Crynodeb o Ohebiaeth – Chwefor 2026"**.

**8.1 Dafydd Einion Jones – Swyddog Cefnogi Cymunedau** - Dechrau meddwl am brosiectau posibl a chael sgwrs gynnar ac y Clerc i ofyn oes na modd i rhiwyn ddod i'r cyfarfod nesaf i drafod.

**8.2 Gwelliannau Bethesda – Llewyrch o'r Lechi –** Cyfarfod nesaf ar y 2 Ebrill efo'r Cynghorwyr Sir, y Clerc i ofyn am fwy o wybodaeth gan Cyngor Gwynedd.

**8.3 Cyfarfod Clwb Ieuienctid –** Mae Einir wedi gwirfoddoli fynychu'r cyfarfod ar ran Cyngor Cymuned Bethesda.

**8.4 Carnifal 2026 –** Y Cyngor yn cefnogi cau Stryd Fawr Bethesda ar 16 Mai.

**8.5 Un Llais Cymru –** Mae'r cyfarfodydd nesaf wedi cael ei agor i bob un Cynghorion yn hytrach na un neu ddau o bob Cyngor Cymuned.

**10. Rhoddion**

Trafodwyd y rhestr rhoddion. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn fel a ganlyn:

| **Enw:** | **Swm:** | **Datgan Diddordeb:** |
|---|---|---|
| Llais Ogwan | £500 | NH, WW, PR, CW |
| Apel Cronfa Cyfle I bawb yr Urdd | £100 | |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £150 | |
| Hwb Ogwen | £500 | |
| Theatr Bara Caws | £300 | |
| Sefydliad y Merched Carneddi | £50 | |
| Carnifal Bethesda | £2,000 | |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £200 | |
| Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen | £500 | NH, MJ, LB |
| Balchder Bro | £1,500 | PR, NH |
| Caban Gerlan | £1,500 | AW, LB, EW |
| Dawns i bawb | £100 | |
| Clwb Camera Dyffryn Ogwen | £150 | AW |
| Eglwys Glanogwen | £500 | AW, LB |
| Radio Ysbyty Gwynedd | £100 | |
| Clwb Criced a Bowlio Bethesda | £300 | |

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

| **Rhif Cais** | **Lleoliad** | **Disgrifiad** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|---|
| **C26/0007/13/DT** | 4 Stryd Hir, Gerlan, Bethesda | Codi estyniad deulawr ar gefn yr eiddo | Dim gwrthwynebiad |

**12. Taliadau Chwefror 2026**

| **Talai** | **Ffurf** | **Manylion** | **Swm** |
|---|---|---|---|
| John Wyn Jones | BACS | Cyflog Chwefror 2026 | £423.30 |
| CThEF | BACS | TWE Chwefror 2026 | £105.80 |
| YGC | BACS | Ffioedd Maes Parcio Gerlan | £7,812.00 |

## 10. Crynodeb Llais Ogwan

Penderfynwyd cynnwys y canlynol:

**Manylion y Rhoddion**
Y Clerc yn gyrru rhestr or mudiadau sydd wedi bod yn llwyddiannus efo rhodd y flwyddyn yma.

**Lloches Bws Maes Bleddyn / Cae Rhosydd**
Mae Cyngor Cymuned Bethesda yn falch iawn o gyhoeddi bod safle bws newydd yn cael ei osod ym Maes Bleddyn a gyferbyn Cae Rhosydd yn fuan.

**Lloches Bws Bontŵr**
Mae'r safle bws yma wedi cael ei ddifrodi ac mae'r cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod yna un Newydd yno cyn gynted a medrwn ni.